Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Heol Graigwen, Cymer, Porth
Rhondda Cynon Taf, CF39 9HA
Ffôn/Tel: 01443 680800

03.10.2018

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Rydym wedi gosod taflen wybodaeth ar wefan yr ysgol yn cynnwys gwybodaeth bwysig ynglyn â Phlatfform Hwb y llywodraeth â'n defnydd ni o wybodaeth am eich plentyn i ganiatáu mynediad iddynt i'r platfform hwnnw arlein.

Oes modd i chi ddarllen y daflen wybodaeth bwysig hon, gan ymateb erbyn dydd Llun 08/10/18, os ydych yn gwrthwynebu yn unig, os gwelwch yn dda?

Yn y cyfamser, pe hoffwch drafod ymhellach, peidiwch ag oedi cysylltu gyda ni.

Dear Parent / Guardian,

We have placed an information sheet on the school website containing important information concerning the Government's Hwb platform and our use of your child's information to allow them to access this online platform.

Please would you read this important information, and reply by Monday 08/10/18, only if you don't agree to provide consent?

In the meantime, should you wish to discuss this further, please do not hesitate in contacting the school.

Yn gywir / Sincerely,

Rhian M. Ellis

(Pennaeth / Head)

THE HWB PLATFORM – PARENTAL CONSENT

The Hwb platform provides all maintained schools in Wales with access to a wide range of centrally-funded, bilingual digital tools and resources to support the digital transformation of classroom practices. The Hwb platform is managed and operated by the Welsh Government.

All pupils in maintained schools in Wales must be provided with a secure log-in to the Hwb platform. This is because mandatory reading and numeracy tests, currently on paper, will be moving online and must be completed by each pupil via the platform. In order to provide your child with a secure log-in, the school will be sending basic information to the Welsh Government. The log-in will allow your child to take the mandatory online assessments, known as 'personalised assessments'.

For more information about the **Hwb platform** and **how information about your child is used**, please see https://hwb.gov.wales/privacy

For more information about the **online personalised assessments**, please see http://learning.gov.wales/resources/collections/national-reading-and-numeracy-tests?lang=en#collection-2

Additional services

If you agree, Welsh Government can also provide your child with access, via the Hwb platform, to a variety of additional services which are provided by other organisations. These include online learning environments such as Hwb Classes, Microsoft Office 365, Google for Education, and other relevant educational tools and resources. Welsh Government is making these additional services available to help your child access educational resources. These additional services are centrally funded and there is no cost for you or for your school to access and use them.

Welsh Government will only provide access to these additional services if you give your consent.

YOUR AGREEMENT

If you agree:

- we will tell Welsh Government to provide access to the additional services
- Welsh Government will share information about your child with its service provides, including Microsoft and Google Education, in order to enable access to the additional services.

If you do not agree, **we will still share information about your child with Welsh Government to set up a secure log-in for the Hwb platform**, but your child will not be able to access the additional services.

If you wish to withdraw your consent at any time, please contact the school.

Y PLATFFORM HWB – CANIATÂD RHIENI

Mae'r platfform Hwb yn darparu mynediad i'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru i ystod eang o offer ac adnoddau digidol dwyieithog, a ariennir yn ganolog, i gefnogi trawsnewidiad digidol arferion ystafell ddosbarth. Rheolir a gweithredir y platfform Hwb gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru gael mynediad diogel i'r platfform Hwb. Mae hyn oherwydd bod profion darllen a rhifedd gorfodol, ar bapur ar hyn o bryd, yn symud ar-lein ac mae'n rhaid i bob disgybl eu cwblhau drwy'r platfform. Er mwyn darparu manylion mewngofnodi diogel eich plentyn, bydd yr ysgol yn anfon gwybodaeth sylfaenol i Lywodraeth Cymru. Bydd y manylion mewngofnodi yn caniatáu eich plentyn i gymryd yr asesiadau gorfodol ar-lein, a elwir yn 'asesiadau personol'.

I gael mwy o wybodaeth am y **platfform Hwb** a **sut y mae gwybodaeth am eich plentyn yn cael ei defnyddio**, ewch i https://hwb.gov.wales/privacy

Am fwy o wybodaeth am yr **asesiadau personol ar-lein**, ewch i http://learning.gov.wales/resources/collections/national-reading-and-numeracy-tests?lang=cy#collection-2

Gwasanaethau ychwanegol

Os ydych chi'n cytuno, gall Llywodraeth Cymru hefyd roi mynediad i'ch plentyn, trwy blatfform Hwb, i amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol a ddarperir gan sefydliadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys amgylcheddau dysgu ar-lein fel Dosbarthiadau Hwb, Microsoft Office 365, Google for Education, ac offer ac adnoddau addysgol perthnasol eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwasanaethau ychwanegol hyn ar gael i helpu eich plentyn gael mynediad at adnoddau addysgol. Mae'r gwasanaethau ychwanegol hyn yn cael eu hariannu'n ganolog ac nid oes cost i chi nac i'ch ysgol gael mynediad atynt a'u defnyddio.

Dim ond os byddwch chi'n rhoi caniatâd i nodi'ch cytundeb y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu mynediad i'r gwasanaethau ychwanegol hyn.

EICH CYTUNDEB

Os ydych yn cytuno:

- byddwn yn dweud wrth Lywodraeth Cymru i roi mynediad i'r gwasanaethau ychwanegol
- bydd Llywodraeth Cymru'n rhannu'r wybodaeth am eich plentyn gyda'i darparwyr gwasanaeth, yn cynnwys Microsoft a Google Education, er mwyn galluogi mynediad at y gwasanaethau ychwanegol hyn

Os na fyddwch yn cytuno, **byddwn yn dal i rannu gwybodaeth am eich plentyn â Llywodraeth Cymru i sefydlu manylion mewngofnodi diogel i'r platfform Hwb**, ond ni fydd yn bosibl i'ch plentyn allu defnyddio'r gwasanaethau ychwanegol.

Os hoffech dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, cysylltwch â'r ysgol.